Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Chwarae Cyn-ysgol Owrtyn
**The Playcentre**
**School Lane**
**Owrtyn**
**Wrecsam**
**LL13 0ES**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/04/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Saesneg ym mhentref Owrtyn, ger Wrecsam yn awdurdod lleol Wrecsam, yw Cylch Chwarae Cyn-ysgol Owrtyn. Mae wedi'i leoli mewn adeilad dynodedig ger yr ysgol gynradd leol. Caiff ei redeg gan bwyllgor rheoli ac mae'n cyflogi naw aelod o staff. Mae gan un ymarferwr gyfrifoldeb am arwain y lleoliad, ac mae wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2017.

Mae Cylch Chwarae Cyn-ysgol Owrtyn wedi'i gofrestru i ddarparu gofal ar gyfer hyd at 30 o blant rhwng 2 a 12 mlwydd oed. Adeg yr arolygiad, roedd 7 o blant tair oed ar y gofrestr, pob un ohonynt yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol. Mae pob un o'r plant yn siarad Saesneg fel eu mamiaith. Ychydig iawn o blant sy'n siarad Cymraeg gartref.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf yn Ionawr 2017 a chan Estyn yng Ngorffennaf 2014.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd priodol o ran datblygu eu medrau yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad
- mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau llafaredd cryf
- mae bron pob un o'r plant yn mwynhau dod i'r lleoliad
- mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o fedrau plant a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella
- mae gan bob ymarferwr berthnasoedd gweithio tyner a chadarnhaol gyda'r plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- mae gan ymarferwyr ffocws clir ar welliant parhaus
- mae gan arweinydd y lleoliad a'r pwyllgor rheoli ddarlun cywir o'u cryfderau a'r meysydd i'w gwella
- mae gan y lleoliad bartneriaethau buddiol gyda rhieni
- mae'r gweithio mewn partneriaeth â'r ysgol gynradd leol yn gryf
- mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau'n dda i gefnogi anghenion dysgu'r plant

## Argymhellion

A1 Gwella medrau llafaredd Cymraeg plant

A2 Gwella'r defnydd o dasgau â ffocws i fynd i'r afael ag anghenion penodol plant, yn enwedig eu medrau llythrennedd a rhifedd

A3 Gwella'r defnydd o ddarpariaeth fanylach i ennyn diddordeb pob un o'r plant

A4 Cynllunio cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu medrau meddwl a datrys problemau

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau yn y lleoliad â lefelau medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth sydd o leiaf yn briodol ar gyfer eu hoedran a'u gallu. Gwnânt gynnydd digonol o ran datblygu eu medrau o'u mannau cychwyn unigol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos medrau siarad a gwrando da ac maent yn datblygu'r rhain yn dda yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Er enghraifft, maent yn mwynhau gwrando ar stori wedi'i recordio ymlaen llaw sy'n cael ei harddangos ar fwrdd gwyn rhyngweithiol ac yn ymuno'n annibynnol â'r ymadrodd a ailadroddir, sef 'with a squash and a squeeze.' Mae rhai plant yn mynegi ffafriaethau am hoff lyfrau. Dewisant y rhain o'r gornel lyfrau ac maent yn mwynhau rhannu eu syniadau am yr hyn a allai fod yn digwydd yn y stori gydag oedolyn. Er enghraifft, awgrymu bod y ci yn 'sblasio drwy'r pwll.' Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall sut i ddal llyfr, ac mae llawer ohonynt yn troi'r tudalennau i'r cyfeiriad cywir.

Yn yr ardaloedd dan do ac awyr agored, mae plant yn mwynhau creu marciau mewn amrywiaeth o ffyrdd. Er enghraifft, maent yn gwneud siapiau ac yn ceisio creu llythrennau syml â'u bysedd yn yr hambwrdd tywod yn yr ardal awyr agored. Mae llawer o blant yn mwynhau tynnu lluniau a cheisio ysgrifennu eu labeli eu hunain, er enghraifft wrth dynnu llun o'u teulu ac ysgrifennu eu henwau oddi tanodd. Mae ychydig iawn o blant yn gwneud rhestrau yn y siop chwarae rôl. Mae llawer ohonynt yn dangos rheolaeth gynyddol, er enghraifft wrth ddefnyddio ysgrifbin ffelt i ysgrifennu cerdyn Santes Dwynwen yn yr ardal ysgrifennu.

Fel rhan o arferion cofrestru, mae bron pob un o'r plant yn ymuno ag oedolion wrth gyfrif nifer y plant sy'n bresennol. Mae rhai plant yn cyfrif i fyny i ddeg gyda chymorth gan ymarferwr, er enghraifft wrth gyfrif nifer y tractorau mewn llyfr lluniau. Mae llawer ohonynt yn deall cysyniad maint cymharol. Er enghraifft, maent yn siarad am y tŵr mwy neu lai yn yr ardal adeiladu. Mae rhai ohonynt yn archebu gwrthrychau yn ôl maint, fel y deinosoriaid yn yr hambwrdd tywod. Mae ychydig iawn ohonynt yn enwi siapiau syml, fel cylch a sgwâr, pan fydd oedolyn yn tynnu eu llun yn yr hambwrdd tywod.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sylfaenol. Er enghraifft, maent yn mwynhau chwarae â ffonau symudol esgus i gyfathrebu â'i gilydd ac oedolion wrth iddynt chwarae rôl.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau echddygol manwl a bras da, er enghraifft wrth ddal ysgrifbin ffelt i liwio llun neu wrth ddefnyddio beic cydbwysedd yn yr ardal awyr agored. Fodd bynnag, prin yw'r plant sy'n dangos y gallu i ddefnyddio eu medrau meddwl neu ddatrys problemau mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Mae llawer o blant yn datblygu ychydig o fedrau llafaredd sylfaenol, er enghraifft wrth ymuno â chyfrif yn Gymraeg neu ymateb i'r gofrestr trwy ddweud 'yma'. Yn yr achosion prin iawn pan fydd ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg, er enghraifft i ddisgrifio lliwiau, mae'r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn dda i hyn. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau llafaredd Cymraeg yn ddigon da.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus, yn ymgynefino'n gyflym ac yn mwynhau'r gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt pan fyddant yno. Mae ganddynt agwedd gadarnhaol at ddysgu ac maent yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd. Mae plant yn teimlo bod ymarferwyr yn eu gwerthfawrogi a byddant yn gwrando'n ofalus ar eu barn a'u pryderon. O ganlyniad, maent yn cymryd rhan yn dda yn arferion y lleoliad ac yn gwneud y gorau o'r gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn chwarae â'i gilydd yn dda ac mae eu hymddygiad yn dda. Maent yn gwrando'n ofalus ar oedolion ac yn aml ar ei gilydd. Maent yn deall pwysigrwydd aros eu tro ac na allant gael eu ffordd eu hunain bob amser. Er enghraifft, wrth wneud hufen iâ, maent yn deall bod rhaid iddynt gyd-fynd â phenderfyniad mwyafrif y grŵp i wneud hufen iâ blas mêl yn hytrach na'r hyn y maent yn eu ffafrio, sef aeron coch.

Mae llawer o blant yn dangos lefelau addas o hunanhyder. Er enghraifft, maent yn gwisgo eu cotiau yn annibynnol i fynd y tu allan, yn tynnu eu hesgidiau glaw i ffwrdd pan fyddant yn dod i mewn ac yn gwisgo eu hesgidiau i fynd adref. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus i fynegi eu barn am eu dysgu. Er enghraifft, maent yn siarad yn hyderus am y maes dysgu y maent yn dymuno cymryd rhan ynddo nesaf ac mae rhai ohonynt yn mynegi rhesymau pam. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio adnoddau yn annibynnol a hyderus, er enghraifft wrth ddewis ysgrifbinnau ffelt i liwio llun neu ddewis siswrn i dorri gwrthrychau allan.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini. Maent yn gwybod bod bwyta ffrwythau ac yfed dŵr yn dda i chi a bod rhedeg a neidio yn yr ardal awyr agored yn helpu i'ch gwneud yn gryf. Maent yn cydnabod pwysigrwydd golchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled a chyn bwyta bwyd. Wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd coginio, maent yn gwybod os ydynt yn llyfu'r llwy fod angen iddynt ddefnyddio llwy lân i droi'r cymysgedd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r lleoliad yn cynnig ystod briodol o brofiadau uniongyrchol ac ymarferol i ennyn diddordeb y plant. Er enghraifft, maent yn mwynhau ymweliad gan gwmni lleol sy'n gwneud hufen iâ, gan greu eu hufen iâ eu hunain a chwarae rôl yn gwerthu hufen iâ esgus yn eu hardal yn yr awyr agored. Mae'r lleoliad yn seilio profiadau dysgu yn briodol ar ethos y cyfnod sylfaen ac yn annog plant i ddysgu a datblygu eu medrau trwy chwarae gweithredol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys cyfleoedd digonol i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n datblygu eu medrau datrys problemau a meddwl.

Mae'r lleoliad yn gwneud cynnydd da o ran sicrhau bod ei ddarpariaeth barhaus yn mynd i'r afael ag anghenion dysgu'r plant ac mae'n annog datblygiad ystod briodol o fedrau llythrennedd, rhifedd, corfforol a chreadigol. Er enghraifft, ceir cyfleoedd da i blant arbrofi â chreu marciau yn yr ardaloedd ysgrifennu, chwarae rôl a pheintio. Mae'r stondin hufen iâ yn yr awyr agored yn effeithiol o ran annog plant i ddatblygu

eu dealltwriaeth o arian a rhifau i fyny i ddeg. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn gwella'i ddarpariaeth yn ddigonol nac yn ddigon aml i ddatblygu dull yn seiliedig ar destun o ddatblygu medrau'r plant. Yn yr un modd, er bod ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r camau nesaf yn nysgu'r plant, nid ydynt yn cynllunio tasgau â ffocws yn ddigon manwl i fynd i'r afael â datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd unigol.

Ceir rhai cyfleoedd defnyddiol i blant ddatblygu eu medrau llafaredd Cymraeg. Er enghraifft, mae llawer o ymarferwyr yn cyfarch plant trwy ddweud 'bore da' wrthynt pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad. Maent yn arwain y gân amser cofrestru yn y bore yn Gymraeg ac yn annog y plant i ymuno ag ateb trwy ddweud 'yma'. Fodd bynnag, at ei gilydd, ni roddir cyfleoedd digon rheolaidd i blant ddatblygu eu medrau llafaredd Cymraeg, ac ni chânt eu cynnwys yn ddigonol yn arferion dyddiol y lleoliad.

**Addysgu: Da**

Mae gan bob ymarferwr berthnasoedd gweithio tyner a chadarnhaol gyda'r plant. Maent yn siarad â'r plant gan ddangos parch atynt, ac yn gwrando ar eu sylwadau a'u barn yn ofalus trwy gydol sesiynau addysgu ac fel rhan o arferion cartref, cofrestru ac amser byrbryd. Maent yn annog plant i ddyfalbarhau â'u tasg ac yn cynnig cymorth priodol pan fydd angen. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu ystod o fedrau dros gyfnod.

Mae ymarferwyr yn fodelau rôl cadarnhaol o ran iaith ar gyfer y plant. Er enghraifft, maent yn eu hannog i ddatblygu eu medrau cyfathrebu wrth chwarae rôl sgwrs ar ffonau symudol esgus. Mae ymarferwyr yn defnyddio holi yn dda i gefnogi dysgu'r plant. Er enghraifft, maent yn annog y plant i adnabod a siarad am y lliwiau y maent yn eu defnyddio wrth greu darlun o'u teulu yn yr ardal ysgrifennu ac yn siarad â nhw ynghylch o ble daw hufen wrth wneud hufen iâ. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod cyflymdra'r sesiynau yn briodol ac mae hyn yn cynnal diddordeb y plant yn eu gweithgareddau. Fodd bynnag, collir rhai cyfleoedd i ddatblygu synnwyr plant o annibyniaeth a chyfrifoldeb, er enghraifft yn ystod amser byrbryd a phan fydd hi'n amser tacluso.

Mae ymarferwyr wedi datblygu gweithdrefnau asesu effeithiol a gwnânt arsylwadau buddiol o fedrau'r plant. Er enghraifft, maent yn nodi bod plentyn yn gallu rhoi teganau meddal yn eu trefn â rhifau arnynt ac yn sylwi bod un ar goll. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gyfrannu at asesiadau cyffredinol o allu a chyflawniadau plant y maent yn ei throsglwyddo i'r ysgol gynradd sy'n bwydo adeg pontio. Mae'r arweinydd wedi datblygu system olrhain ddefnyddiol sy'n nodi'n glir y cynnydd y mae'r plant wedi'i wneud a'r camau nesaf yn eu dysgu. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y system newydd hon.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ymarferwyr yn ymateb i anghenion unigol y plant â gofal ac ystyriaeth. Maent yn gweithio'n dda i greu amgylchedd hapus a gofalgar yn y lleoliad. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn frwdfrydig am fynychu bob dydd a'u bod yn mwynhau eu dysgu.

Fel rhan o ethos cefnogol a gofalgar, mae pob un o’r ymarferwyr yn cynnal disgwyliadau uchel o ymddygiad y plant. Maent yn sicrhau eu bod yn deall pwysigrwydd cymryd eu tro ac yn meddwl am y modd y mae eu gweithredoedd yn effeithio ar bobl eraill. Yn yr achosion prin pan fydd plant yn ymddwyn mewn modd annerbyniol, mae ymarferwyr yn eu hatgoffa’n dyner am eu disgwyliadau o ran ymddygiad da ac yn sicrhau eu bod yn ymateb yn briodol. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn dda ac yn dangos lefelau da o ystyriaeth tuag at ei gilydd ac oedolion.

Mae’r lleoliad yn cynllunio ystod briodol o brofiadau dysgu i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, diwylliannol, moesol a chymdeithasol plant yn briodol. Mae ymarferwyr yn trefnu cyfleoedd buddiol i’r plant archwilio nodweddion diwylliant Cymru trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen, yn ogystal ag ymweliadau rheolaidd â’r eglwys leol. Maent yn archwilio diwylliannau eraill trwy ddathlu diwrnodau a gwyliau arbennig fel y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd a Diwali. Mae ymarferwyr yn dechrau datblygu dealltwriaeth plant o fyw yn gynaliadwy. Er enghraifft, mae plant yn defnyddio deunyddiau sothach ar gyfer modelu a chratiau wedi’u hailgylchu fel rhan o chwarae yn yr awyr agored. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae’r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer codi ymwybyddiaeth plant am gynaliadwyedd.

Mae ymarferwyr yn datblygu dealltwriaeth plant o sut i aros yn iach a heini yn briodol. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod y plant yn deall pwysigrwydd golchi eu dwylo ar ôl defnyddio’r toiled a chyn bwyta. Defnyddiant weithgareddau coginio ac amser byrbryd yn dda i arwain trafodaethau gyda’r plant am sut i fwyta’n iach, fel pwysigrwydd peidio â bwyta gormod o siwgr. Mae ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod plant yn gwneud gweithgarwch corfforol yn rheolaidd yn ystod y dydd trwy ddefnyddio’r ardal yn yr awyr agored a’r offer chwarae.

Mae gan y lleoliad drefniadau priodol i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol pan fyddant yn codi, ac mae gan ymarferwyr bartneriaethau effeithiol gydag ystod o asiantaethau cymorth.

Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cadarnhaol, cydweithredol a chefnogol yn treiddio trwy’r lleoliad. Ceir ‘bwrlwm’ o weithgarwch ac mae bron pob un o’r plant yn ymgymryd yn frwdfrydig â’u dysgu, gyda chymorth da gan ymarferwyr. Mae ymarferwyr yn cynnwys pob un o’r plant yn llwyddiannus wrth wneud dewisiadau ynghylch pa weithgaredd y maent yn dymuno cymryd rhan ynddo nesaf, ac maent yn sicrhau eu bod yn cael yr un cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau a meysydd dysgu. Mae ymarferwyr yn gwerthfawrogi a chydnabod cyflawniadau plant yn dda trwy arddangos a dathlu eu gwaith. Maent yn gweddu adnoddau’n llwyddiannus i anghenion a diddordebau plant.

Mae ymarferwyr wedi datblygu ystod briodol o feysydd dysgu deniadol yn y brif ystafell sy’n annog dysgu a chwarae plant yn effeithiol. Mae’r rhain wedi’u trefnu’n dda i sicrhau bod plant yn gwneud eu dewisiadau eu hunain am eu tasg nesaf ac yn datblygu eu hannibyniaeth. Er enghraifft, mae’r siop chwarae rôl yn annog plant i wella eu medrau llafaredd ac ysgrifennu cynnar a’u dealltwriaeth o arian.

Mae'r lleoliad yn datblygu ei ardal yn yr awyr agored yn llwyddiannus. Mae ystod briodol o ardaloedd, fel y mannau cerddoriaeth a chwarae dŵr, yn annog y plant i ymarfer a datblygu ystod eang o fedrau. Mae ymarferwyr yn dechrau defnyddio darn o dir y tu ôl i'r lleoliad i alluogi plant i archwilio eu medrau creadigol, er enghraifft trwy wehyddu helygen wrth greu 'wiglŵ' fel rhan o'u hastudiaeth o Antarctica. Mae gan yr arweinydd gynlluniau dychmygus i wella'r ardal hon ymhellach.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd, y pwyllgor rheoli a'r cadeirydd weledigaeth hirdymor ar gyfer datblygu'r lleoliad. Mae'r weledigaeth hon yn canolbwyntio'n dda ar feithrin medrau ac arbenigedd yr ymarferwyr i sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer y plant. Ceir cyfathrebu clir ac effeithiol rhwng yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli. Mae ganddynt bartneriaeth fuddiol sy'n cefnogi blaenoriaethau'r lleoliad yn dda. Mae cyfarfodydd rheolaidd y pwyllgor rheoli'n canolbwyntio'n dda ar wella ansawdd y ddarpariaeth. Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth dda o gryfderau a gwendidau'r lleoliad.

Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n dda ar yr hyn sy'n ofynnol i redeg lleoliad effeithiol a sicrhau gweithrediad esmwyth arferion a gweithdrefnau sylfaenol. Maent wedi datblygu polisïau a chynlluniau clir i gefnogi gwaith y lleoliad. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o waith yr ymarferwyr. O ganlyniad, mae'r aelodau o staff niferus a benodwyd yn ddiweddar yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli wedi bod yn llwyddiannus yn penodi ymarferwyr sydd ag ystod eang o brofiad blaenorol sy'n bodloni anghenion y lleoliad yn dda.

Mae'r arweinydd yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu ymdeimlad o waith tîm ymhlith ymarferwyr. Mae'n partneru ymarferwyr â'i gilydd ar gyfer mentora a monitro. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn rhannu eu harbenigedd ac yn cydweithio i wella eu harfer broffesiynol a datblygu hyder yn eu rolau. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn gwella'u harfer yn barhaus ac yn datblygu dull cyson sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ddeilliannau ar gyfer plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y lleoliad weithdrefnau da ar waith ar gyfer hunanarfarnu. Mae hunanadolygiad y sefydliad yn onest, syml ac yn canolbwyntio'n briodol ar lawer o'r meysydd y mae angen i'r lleoliad eu gwella. Mae gan arweinwyr hanes cryf o hunanarfarnu a gwella ac maent yn cynnwys aelodau o staff a benodwyd yn ddiweddar yn gyflym wrth arfarnu gwaith y lleoliad.

Mae cynllun gweithredu'r lleoliad ar gyfer gwella yn nodi hyfforddiant, adnoddau a mentrau cynlluniedig yn glir ar gyfer y dyfodol. Mae'r rhain yn mynd i'r afael â'r materion a amlinellwyd yn hunanarfarniad y lleoliad yn effeithiol ac mae'n dangos camau gweithredu priodol i wneud gwelliannau. Er enghraifft, maent yn cydnabod bod angen gwella darpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh plant ac maent wedi trefnu hyfforddiant a phrynu adnoddau i fynd i'r afael â hyn.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cyfarfod bob hanner tymor i adolygu a myfyrio ar eu harfer. Mae'r cyfarfodydd hyn yn fuddiol o ran nodi meysydd i'w gwella, rhannu arfer dda a sicrhau dull cyson ymhlith ymarferwyr a benodwyd yn ddiweddar. Mae'r arweinydd wedi gwella'r trefniant hwn yn ddiweddar i sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob pythefnos. Mae'r lleoliad wedi gwneud cynnydd da yn erbyn argymhellion yr arolygiad blaenorol. Er enghraifft, erbyn hyn, mae ymarferwyr yn defnyddio eu harsylwadau o fedrau'r plant yn effeithiol i'w cynnwys yn system asesu barhaus y lleoliad ac fe gaiff plant fynediad rhydd rhwng yr ardaloedd dan do ac awyr agored.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad bartneriaethau cryf â rhieni, yr ysgol gynradd leol y mae'n ei bwydo, a'r gymuned. Mae'n cynnal cyfathrebu da â rhieni trwy wefan y lleoliad, hysbysfyrddau, cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau. Caiff barn a mewnbwn rhieni ynghylch mentrau newydd eu gwerthfawrogi gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o rieni'n hynod gefnogol o'r lleoliad. Er enghraifft, mynychodd llawer o rieni a chefnogwyr ei gyfarfod cyffredinol blynyddol diweddaraf.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn trosglwyddo i'r ysgol gynradd leol ger y lleoliad ac mae cysylltiadau pontio sefydledig yn sicrhau cyfnewid esmwyth rhwng y sefydliadau. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys cyfarfodydd rhieni ar y cyd, sesiynau adrodd stori a defnydd ar y cyd o ardal goedwig yr ysgol. Mae'r lleoliad hefyd yn elwa ar ymarferwyr sy'n cymryd rhan yn y sesiynau hyfforddi ar y cyd â staff yr ysgol, er enghraifft trwy edrych ar ffyrdd o ddatblygu darpariaeth barhaus effeithiol.

Mae'r athrawes gyswllt o'r ysgol gynradd yn darparu cymorth gwerthfawr cyson i'r lleoliad. Mae'n modelu arfer dda ac yn nodi'r camau nesaf ar y cyd ag arweinydd y lleoliad i gynllunio ar gyfer gwelliant a sicrhau cysondeb y ddarpariaeth. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'r cymorth a gynigir gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol, yn enwedig i gefnogi anghenion hyfforddi staff.

Ceir cysylltiadau cryf â'r gymuned. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn darparu diweddariad misol i'r cylchlythyr lleol i hysbysu'r gymuned am ddigwyddiadau blaenorol a digwyddiadau yn y dyfodol. Mae ymarferwyr yn trefnu ymweliadau rheolaidd â'r gymuned, fel yr eglwys a'r siop leol, i gefnogi dysgu'r plant. Yn ddiweddar, trefnodd ddigwyddiad llwyddiannus i ddathlu pum deg mlynedd ers agor y lleoliad gyda garddwest a dawns.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn rheoli adnoddau cyfyngedig y lleoliad yn dda. Maent yn realistig ynglŷn â'r cyllid sydd ar gael ac yn ei flaenoriaethu'n dda i fodloni anghenion y plant. Maent wedi bod yn effeithiol yn gwneud cais am grantiau i ychwanegu at incwm y lleoliad. Er enghraifft, defnyddion nhw grant cynaliadwyedd i gefnogi datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd plant.

Mae arweinwyr yn llwyddiannus o ran darparu amgylchedd difyr, cadarnhaol, ac sy'n cynnwys adnoddau da ar gyfer y plant. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr i fodloni anghenion dysgu'r plant. Mae'r pwyllgor rheoli yn gweithio'n agos â'r

arweinydd i brynu adnoddau newydd, o ansawdd da, fel ffonau chwarae a thryciau a reolir o bell, i gefnogi datblygiad y plant. Mae ymarferwyr yn gwerthfawrogi adnoddau'r lleoliad ac yn eu cynnal yn dda. Mae'r arweinydd yn archwilio'r rhain bob blwyddyn ac yn blaenoriaethu anghenion prynu'r lleoliad yn unol â hynny.

Mae'r arweinydd wedi sefydlu cynllun hyfforddi staff cynhwysfawr. Mae hwn yn targedu anghenion unigol y staff yn llwyddiannus ac yn cefnogi blaenoriaethau gwella'r lleoliad yn dda. Mae pob un o'r staff wedi mynychu diwrnod ymsefydlu ac maent yn elwa ar gymorth parhaus athrawes gyswllt y cyfnod sylfaen o'r ysgol gynradd leol.

Yng ngoleuni'r deilliannau a gyflawnir gan y plant, y ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth lwyddiannus, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |